



Rhestr termau allweddol

Opsiynau Llanwol

Gwelliannau i furiau presennol yr harbwr i ateb gofynion y dyfodol.

Gwella amddiffynfeydd yr harbwr

Codi amddiffynfeydd rhag llifogydd

Cynyddu uchder yr amddiffynfeydd presennol o gwmpas Pwllheli, gan gynnwys y grwynau, morgloddiau, ac amddiffynfeydd y creigiau.

Cynyddu maint, uchder, a dyfnder y twyni tywod ar hyd arfordir Pwllheli i ddarparu rhwystr naturiol yn erbyn stormydd yn y dyfodol.

Cyfoethogi'r twyni tywod ac adfer y traeth

Uwchraddio amddiffynfeydd arfordirol presennol

Gwella ac addasu'r amddiffynfeydd presennol o gwmpas Pwllheli, gan gynnwys y grwynau, y morgloddiau, ac amddiffynfeydd y creigiau er mwyn paratoi ar gyfer stormydd yn y dyfodol.

Gellid creu strwythurau newydd i amddiffyn rhag llifogydd ymhellach i mewn i'r tir, gan greu parthau clustogi gwell i baratoi ar gyfer y cynnydd a ragwelir yn lefel y môr a stormydd yn y dyfodol.

Ailalinio amddiffynfeydd arfordirol tua'r tir

Cyflwyno grwynau a morgloddiau

Grwynau/morgloddiau ychwanegol i'w cyflwyno ar hyd yr arfordir i leihau erydiad arfordirol ac atal y môr rhag adennill tir.

Opsiynau Afonol

Defnyddio gorlifdiroedd naturiol presennol a'r dirwedd i ddal dŵr a lleihau cyflymder y llif tuag at Bwllheli. Mae hyn yn cynnwys adfer gorlifdiroedd, plannu coetiroedd a chyflwyno pyllau a gwlyptiroedd.

Opsiynau rheoli perygl llifogydd naturiol

Codi rhannau o'r A499

Cynyddu uchder yr A499 er mwyn lleihau faint o'r ffordd sydd ar gau oherwydd llifogydd.

Cynyddu'r capasiti ar gyfer llif yn rhwydwaith yr afonydd mewn mannau allweddol o lif cryf i leihau effeithiau llifogydd cymaint â phosibl.

Gwella trawsgludiad yn y cwrs dŵr

Carthu rhannau penodol o gyrsiau dŵr

Tynnu silt a malurion o systemau'r afonydd i gynyddu capasiti ar gyfer llif.

Cyflwyno amddiffynfeydd newydd a/neu gynyddu uchder yr amddiffynfeydd presennol gan gynnwys argloddiau afonydd a waliau llifogydd penodol.

Gwella amddiffynfeydd rhag llifogydd

Datrysiaidau seiliedig ar bwmpio

Gorsafoedd pwmpio i'w gosod ym Mhwllheli i wella cyfraddau gollwng afonydd yn ystod llanw uchel.

Defnyddio'r topograffi presennol gan gynnwys dyffrynnoedd afonydd a chaeau isel i weithredu fel mannau storio llifogydd yn ystod stormydd.

Storio llifogydd i fyny'r afon o fewn dalgylchoedd

Dargyfeirio cyrsiau dŵr

Newid lleoliad y mannau lle mae'r afonydd yn mynd i mewn i'r môr ym Mhwllheli fel eu bod yn gwneud hynny cyn cyrraedd yr harbwr.